
Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed - (CAMHS)

Rhagfyr 2022



Fformatau Hygyrch

Mae'r adroddiad yma ar gael hefyd yn Saesneg

Os hoffech y cyhoeddiad yma mewn fformat ac/neu iaith amgen, cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu gallwch ofyn am gopi drwy gysylltu gyda'n swyddfa.

Cynnwys


Am Cicau	3
Cyflwyniad a Chefndir	5
Beth rydym wedi ei wneud	7
Gan bwy rydym yn clywed	8
Beth rydym wedi ei glywed	8
Beth ddywedodd pobl oedd yn dda	13
Beth ddywedodd pobl oedd ddim cystal	14
Beth ddywedodd pobl am sut i wneud pethau'n well	14
Dysgu o'r hyn rydym wedi ei glywed	16
Argymhellion	20
Diolch	22
Adborth	23
Manylion Cyswllt	24
Ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'n hadroddiad	

Am Gynghorau Iechyd Cymuned (CICau)


Y Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau) yw'r Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau) annibynnol. Mae Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru yn annog ac yn cefnogi pobl i gael llais wrth ddylunio a darparu gwasanaethau'r GIG.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG, cyrff arolygu a chyrrff rheoleiddio. Mae Cyngorau Iechyd Cymuned yn darparu cyswllt pwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n ei arolygu a'i reoleiddio a'r rhai sy'n ei ddefnyddio.

Mae pob CIC:



Cynnal ymweliadau rheolaidd â'r gwasanaethau iechyd i glywed gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth (a'r bobl sy'n darparu gofal) i ddylanwadu ar y newidiadau sy'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr



Yn ymestyn allan i bobl o fewn cymunedau lleol i ddarparu gwybodaeth, a chasglu barn a phrofiadau o wasanaethau'r GIG. Mae CICau yn defnyddio'r wybodaeth hon i wirio sut mae gwasanaethau yn perfformio ac i sicrhau bod y GIG yn gweithredu i wneud pethau'n well lle bo angen



Yn cymryd rhan gyda rheolwyr y gwasanaeth iechyd wrth feddwl am wneud newidiadau i'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu fel bod pobl a chymunedau yn cael dweud eu dweud o'r dechrau




Yn darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sy'n rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i godi eu pryderon am ofal a thriniaeth y GIG

Mae CICau yn clywed yn rheolaidd gan bobl mewn sawl ffordd wahanol. Cyn y pandemig, roedd y Cynghorau Iechyd Cymuned yn ymweld â gwasanaethau'r GIG i glywed gan bobl tra roedden nhw yn derbyn gofal a thriniaeth. Clywodd y Cynghorau Iechyd Cymuned hefyd gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau yn y gymuned

Ers y pandemig coronafeiws mae CICau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu gyda phobl mewn gwahanol ffyrdd

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideo-gynadledda a chyfryngau cymdeithasol i glywed gan bobl yn uniongyrchol am eu barn a'u profiadau o wasanaethau'r GIG, yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae 7 CIC yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais y 'claf a'r cyhoedd' mewn gwahanol rannau o Gymru.



Cyflwyniad a Chefndir

Mae Cyngorau Iechyd Cymuned ledled Cymru wedi clywed, drwy ein harolygon cenedlaethol, fod plant a phobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed - a elwir yn aml yn CAMHS¹) yn wynebu amseroedd aros hir. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yw'r enw am wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ddarperir yn y Deyrnas Unedig i blant, yn gyffredinol tan oedran gadael ysgol, sy'n cael anawsterau gyda'u llesiant emosiynol neu a ystyrir bod ganddynt broblemau ymddygiad parhaus.

Mae nodi pryd mae pobl ifanc yn profi iechyd meddwl gwael ac yna rhoi cymorth a thriniaeth briodol iddynt yn bwysig i blant a phobl ifanc. Heb y gofal priodol ar yr adeg gywir, mae risg bod problemau iechyd meddwl yn parhau i fodoli pan yn oedolion.

¹ CAMHS - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

Wedyn mae'r rhain yn gallu aros gyda'r person yna a chael effaith arnyn nhw, eu teulu a'u ffrindiau, am eu bywydau i gyd.

Yn ystod y pandemig, mae aflonyddwch i'r ysgol, y cartref a bywyd yn gyffredinol wedi effeithio ar lawer o'r systemau cefnogi y mae pobl ifanc yn dibynnu arnynt. Mae'n bosib bod hyn wedi gwaethygu eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn ystod y pandemig a nawr. Mae gan hyn y potensial i effeithio ar eu bywyd yn ddiweddarach.

Deallwn o bapurau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod heriau recriwtio staff medrus a chymwys addas i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn parhau. Er yn fwy diweddar, bu peth llwyddiant yn recriwtio i swyddi gwag. Mae swyddi gwag ar gyfer tîm Mewngymorth Ysgolion er mwyn helpu plant a phobl ifanc mewn lleoliadau ysgol yn cael eu hysbysebu. Mae hefyd yn cymryd amser i brosesu ymgeiswyr llwyddiannus, eu sefydlu a'u cael i mewn i'w rolau gwaith.


O ystyried y problemau recriwtio hyn ac effaith y pandemig, roedd CIC Hywel Dda yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o sut mae iechyd meddwl plant a phobl ifanc wedi cael eu heffeithio, a dysgu mwy am eu profiadau o gael cefnogaeth trwy gydol y cyfnod hwn. Gofynnwyd i gleifion a'u gofalwyr gwblhau ein harolwg i ddweud wrthym sut brofiad oedd eu profiad yn nhair sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phenfro.

Beth rydym wedi ei wneud

Fe wnaethom gynnal arolygon a phosteri gyda chodau QR i amrywiol i sefydliadau trydydd sector (a elwir weithiau yn sefydliadau gwirfoddol) yn ardal Hywel Dda. Anfonwyd e-byst hefyd at y sefydliadau trydydd sector yr ydym yn cysylltu â nhw yn aml.

Fe wnaethom hefyd rannu ein harolwg yn rheolaidd drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter ac Instagram a gwnaethom hefyd sicrhau y gallai pobl gael mynediad i'r arolwg ar ein gwefan gan ein bod yn gwybod bod pobl yn aml yn defnyddio eu ffonau, tabledi a chyfrifiaduron i ddarganfod a chael mynediad at wybodaeth.

Derbyniwyd cyfanswm o 30 ymateb i'n harolwg. Fe ofynnion ni i'r cleifion ble'r oedden nhw'n defnyddio eu gwasanaethau a sut roedden nhw'n teimlo am eu gofal.



Gan bwy rydym yn clywed

Roedd bron i hanner yr ymatebion gan gleifion sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, roedd yr hanner arall yn dod o Geredigion a Sir Benfro. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan gleifion oedd yn ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn yn y gorffennol ac roedd tua chwarter yr ymatebion yn bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd ac roedd tua chwarter arall yn bobl oedd yn dal i aros i gael eu gweld.

Roedd y rhai oedd yn aros i gael mynediad i'r gwasanaethau hyn yn dweud wrthym am aros rhwng 2 fis a blwyddyn, roedd rhai wedi aros blynyddoedd lawer. Roedd proffil oedran y cleifion a gynrychiolir yn yr arolwg ar gyfartaledd rhwng 13 a 17 oed, er bod dau mor ifanc â 5 a 9 oed.

Beth rydym wedi ei glywed

Ceir gwasanaethau iechyd meddwl i blant ar wahanol safleoedd yn ardal Hywel Dda, gan gynnwys Tŷ Helyg yn Aberystwyth, Canolfan Gofal Integredig Aberaeron, Canolfan Gwili yn Ysbyty Glangwili Caerfyrddin, a chlinig Elizabeth Williams yn Llanelli. Fe wnaeth rhai cleifion gael mynediad i'r gwasanaethau drwy eu cwnselydd ysgol.

Roedd darganfod beth oedd ar gael a gallu cyrraedd y gwasanaeth hwnnw yn broblemau mewn rhai achosion hyd yn oed cyn i gleifion gael eu gweld gan unrhyw un mewn gwirionedd.



Dim yn cyfarfod y trothwy am gefnogaeth

Ofndawy, dim cefnogaeth o gwbl

Doedd gwasanaethau eraill ddim yn ddigon ymwybodol o beth maen nhw (CAMHS) yn ei


Cael eich anfon menw cylchoedd wrth ofyn am help, aros am help yna clywed does dim help, ewch i weld xyz, ac mae'n dechrau eto....

Unwaith roedd pobl mewn cysylltiad gyda'r gwasanaeth CAMHS roedd rhai wedyn yn rhwystredig am fethu cael mynediad i'r gwasanaeth.

Ofnadwy. Gwrthododd 7 atgyfeiriadau er gwaethaf hunan-niweidio a meddyliau hunanladdol. Pan welwyd ni o'r diwedd ar ôl cwyn ffurfiol, roedd y diffyg dealltwriaeth o awtistiaeth a PDA yn syfrdanol. Mwy o niwed yn cael ei wneud na da ac fe wnaethon ni ryddhau ein hunain o'r

Diffyg gwasanaethau... Dim ymateb, ein gadael i geisio rheoli'n hunain, dim cefnogaeth gan yr

Roedd y rhestr aros yn golygu nad oedd gennym ddewis arall ond sicrhau cwnsela preifat oherwydd iselder. Yn ffodus mae hyn yn rhywbeth y gallwn ei fforddio fel teulu.



Arhosodd eraill a chael eu gweld ond yna clywed nad oedd modd eu helpu.

Oni bai bod eich plentyn yn hunanladdol nid yw eisiau gwybod. Cyfeirio at dimau o amgylch y teulu / grwpiau rhieni ond dim cefnogaeth gwirioneddol i'r plentyn oedd ein profiad ni. Mae'r system wedi'i gorlethu, mae'r galw'n fwy na'r gefnogaeth sydd ar gael.

Cyfarfu â CPN ar gyfer asesiad cychwynnol, ac atebodd bob cwestiwn yn gadarnhaol. Ges i fy nhynnu nôl i mewn ar ddiwedd yr asesiad, lle roedd rhaid i mi gywiro ychydig o'r atebion, ac fe gafodd hi ei rhyddhau o'r gwasanaethau. Er bod fy merch angen cefnogaeth, barnwyd ei bod hi'n amhriodol ar gyfer y gwasanaeth

Cyfeirio drwy'r Meddyg Teulu am hunan-niweidio a dim bwyta bwyd, ond cefais lythyr ar ôl 2 wythnos gan CAMHS yn dweud nad ydyn nhw'n gallu helpu oherwydd bod ganddi awtistiaeth.

Roedd y meddyg yn dda ar y diwrnod, fel petai'n deall ac roeddwn i'n teimlo'n bositif y bydden ni'n cael rhywfaint o help ar ôl aros yn hir am yr apwyntiad, yna ar ôl y sesiwn fe gawson ni lythyr yn dweud na allwn helpu, roedden ni eisoes wedi cael ein gwrthod unwaith, ond fe wnaeth ein Meddyg Teulu ail-gymhwyso.

Roedd ein gweithiwr Cymunedol CAMHS yn dod i'r tŷ bob wythnos i gefnogi fy mhlentyn; aeth hyn ymlaen am gwpl o fisoedd ac erbyn hyn mae hi wedi diflannu

Dyweddodd y teuluoedd hynny oedd wedi llwyddo i gael gofal pa mor hir roedden nhw wedi aros. Roedd rhai wedi bod yn aros blynyddoedd, er nad oedd eraill wedi cael yr un profiad, a chael mynediad i ofal yn fwy prydlon.

Maen nhw wedi bod yn anefnyddiol, anodd cael gafael arnyn nhw ac roedd y rhestr aros yn hurt. Dim ond pan oedd hi'n bygwth ei bywyd ei hun y gwelwyd hi.

Aros 2/12 hyd yn hyn am gefnogaeth gydag anorecsia dwys

Diln cyfeiriad gan y meddfyg teulu, gwybodus iawn a chael apwyntiad o fewn pythefnos

Symud pethau o fod yn frawychus iawn i fod yn weddol ei drin heb aros yn hir iawn.

Doedd y rhestr aros ddim mor hir ag roeddwn wedi ofni felly hapus gyda 2 fis. Mae fy merch wedi gweld gweithiwr ddwywaith am sesiwn awr bob tro

Roedd y pandemig diweddar yn golygu bod y ffyrdd yr oedd cleifion yn cael gofal yn wahanol. Gwelwyd rhai pobl wyneb yn wyneb ac eraill ar-lein yn defnyddio tabledi, ffonau a dyfeisiau eraill.

Beth ddywedodd pobl oedd yn dda

Fe wnaethom ofyn i bobl beth roedden nhw'n teimlo oedd yn dda am y gwasanaethau. Dywedodd bron pawb bethau cadarnhaol am y staff. Roedden nhw'n eu disgrifio fel cyfeillgar a hawdd mynd atyn nhw, yn broffesiynol ac yn amlwg eisiau helpu. Dywedodd llawer o bobl wrthym bod staff yn dioddef pwysau gwaith oherwydd y galw mawr am y gwasanaeth.

Roedd y staff yn dda ond dim digon o adnoddau

Roedd y staff dan sylw yn dda, yn ofalgar ond dim digon o staff

Roedd eraill yn canmol y staff a sut roedden nhw'n darparu'r gwasanaeth.

Cwmselydd effeithiol a charedig i ddechrau

Roedd yr ymarferydd yn rhyfeddol. Siaradodd gyda fy merch ar ei lefel hi



Cafwyd aseisad o fewn 1 mis i'r cyfeiriad. Roedd y therapydd CBT yn wych ac ymatebodd fy merch yn dda iddi

Wedi do di frig y rhestr aros
bu ein profiad gyda'r
therapydd a'r ymarferwyr
yn hynod o gadarnhaol

Roedden nhw yn
gyfeillgar, yn
gadarnhaol a
phroffesiynol.
Mae Tŷ Helyg yn lle
cyfforddus a diogel.

Dywedodd pobl wrthym bod staff y dderbynfa a chyfathrebu am apwyntiadau yn dda.

Beth ddywedodd pobl oedd ddim cystal

Pan ofynnwyd i bobl ddweud wrthym am y pethau nad oedd mor dda am y gwasanaeth, clywsom yn aml fod adnoddau yn gyfyngedig, Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl aros am amser hir i gael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt ac yn aml yn gweld bod y gefnogaeth a gawsant yn dod i ben yn gyflym iawn.

Clywsom nad oedd pobl yn glir am y meini prawf ar gyfer derbyn unrhyw gymorth o gwbl

Soniodd rhai ei bod yn cymryd peth amser i'r plentyn addasu ac ymddiried mewn staff sy'n darparu gofal, ac y byddai cyfnodau hirach o help o fudd ac yn aml yn dod i ben yn rhy fuan.

Amseroedd rhestrau aros, meini prawf derbyn, diffyg cymorth arbenigol i blant niwroamrywiol, lefel staffio gwael, sut mae'n rhaid i chi fod ar bwynt argyfwng i gael unrhyw help

Hoffai eraill weld rhagor o fewnbwn gan rieni gan eu bod yn teimlo bod plentyn yn gallu 'cuddio' problemau ac y dylai rhieni gael mwy o gyfranogiad yn y broses.

Gwasanaeth plant a phobl ifanc yw'r gwasanaeth, ond dwi'n teimlo bod angen iddyn nhw wrando mwy ar y rhiant. Mae plant yn arbenigwyr ar guddio broblemau

Doedd dim cyfathrebu gyda fi fel rhiant. Roedd yr aros yn hurt. Doedd eu hadnoddau cyfyngedig ddim yn gweithio i fy merch a doedd dim byd arall

Cafwyd rhai sylwadau am amseroedd o argyfwng iechyd meddwl a diffyg eglurder am pwy a sut y gallai'r gwasanaethau helpu, gydag un claf yn cael eu cyfeirio yn amhriodol.

Does neb yn gwranddo mewn gwirionedd. Mae'n anodd cael apwyntiad ac dydy nifer y sesiynau byth yn ddigon yn enwedig i blentyn ASD sy'n cymryd amser i feithrin

2

Roedd y cwnsela gafodd fy merch wedi cymryd cwpl o wythnosau iddi addasu ac i ymddiried ac fel ei chwmselydd oedd yn wych.

² ASD – Anhwyllder Sbectrwm Awtistig

Ar ddiwrnod penodol o argyfwng, dywedwyd wrthym gan Bronglais i fynd â'n mab i Adran Frys Glangwili. Fe gawson ni wybod nad oedd CAMHS yn delio gyda phlant ag anawsterau dysgu. Byddai'n ddefnyddiol pe bai gwasanaethau eraill yn ymwybodol o hyn fel na chawsom ein hanfon yno'n ddiangen ar ddiwrnod o argyfwng enfawr.

Beth ddywedodd pobl am sut i wneud pethau'n well

Gofynnodd rhai rhieni i'r system atgyfeirio a'r meini prawf am help gael eu hystyried. Golygai hyn sicrhau bod meddygon teulu yn gwybod mwy am pryd a sut i gyfeirio at wasanaeth CAMHS.³

Clywsom hefyd fod pobl eisiau gwell cysylltiadau rhwng y tîm argyfwng a CAMHS fel nad oedd pobl yn cael eu gadael yn y tywyllwch nac yn ceisio datrys pethau eu hunain.



³ Ymarferwyr Cyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o bobl eisiau mwy o gyllid, adnoddau a staff cymwys, ac yn rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i'r staff hynny er mwyn caniatáu i'r gwasanaeth allu ymdopi â'r galw.

Roedd gostyngiad yn yr amseroedd aros a chyfathrebu clir hefyd yn thema gyffredin gyda rhieni eisiau mynediad cyflymach i help (yn enwedig mewn argyfwng).

Gofynnwyd am rhywfaint o eglurder ynghylch cefnogi plant ag anawsterau dysgu. Nid oedd y maes yma i'w weld yn glir i rieni na'r rhai oedd yn darparu'r gwasanaeth.

Codwyd y mater nad oedd "un maint allan o'r blwch yn ffitio pawb" ac y dylid asesu pob unigolyn ar eu anghenion penodol ac roedd mewnbwn rhieni yn cael ei ystyried yn holl bwysig.

Mae angen i fwy o therapi fod ar gael ac mae angen trin pob plentyn fel unigolyn. Dylai fod ganddynt becyn therapi pwrpasol a dylai therapyddion annog eu cleientiaid i siarad yn agored am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn ac os yw'n helpu.

Angen asesiad mwy cynhwysfawr gyda'r rhiant i ddeall problemau dyddiol mae'r plentyn yn eu hwynebu.

Gwrandewch ar rieni. Os ydyn ni'n dweud bod problem, mae yna broblem!

Mynediad haws - trafodaethau gyda rhieni

Gofynnodd rhai am fwy o gefnogaeth i rieni, fel hyfforddiant, pecynnau cymorth a llinellau cyngor. Soniodd eraill am fynediad at wasanaethau yn nes at adref. Dywedodd pobl wrthym y gallai hyd y cymorth sydd ar gael fod yn hirach a bod rhyddhau'n gynnar yn bryder. Byddai cael y gwasanaethau hyn ar gael mewn ysgolion a threfnu drwy'r ysgolion hefyd yn helpu rhieni a'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Cafodd 6 sesiwn yn dilyn tician a gorbryder a hunan-niweidio wedi'r cyfnod clo. Bu'r therapydd yn gweithio gyda hi ar ei gorbryder. Roedd y sesiynau a'r gwaith a roddodd fy merch i mewn yn gwneud gwahaniaeth enfawr a throi ei bywyd yn ôl rownd.

Pan gafodd ei gweld o'r diwedd roedd yn wych!

Roedd hi'n hyfryd iawn i fy merch siarad â hi, roedd hi'n help mawr gyda'r OCD yn arbennig.



Dysgu o'r hyn a glywsom

Mae'r CIC yn llawn werthfawrogi bod galw cynyddol diweddar am gefnogaeth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn ogystal â materion staffio wedi rhoi straen mawr ar y gwasanaeth sy'n arwain at amseroedd aros hir am gefnogaeth.

Dylid cyfathrebu'n well gyda theuluoedd wrth iddynt aros am gymorth gyda llwybrau eraill o gefnogaeth ar gael yn ystod y cyfnod hwn e.e. hyfforddiant, pecynnau cymorth a llinellau cyngor

Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn dangos darlun cymysg o bobl yn fodlon â'r gofal oedd ganddynt yn ogystal â'r rhai oedd yn anhapus, yn bennaf ynghylch aros i gael gofal a chael y gofal iawn. Roedd yn amlwg iawn ac yn gysur iddynt, unwaith yr oedd plant yn derbyn cymorth gan wasanaeth CAMHS, eu bod o'r farn eu bod wedi elwa'n fawr, bod cleifion a rhieni fel ei gilydd yn cymeradwyo'r gwasanaeth. Er gwaethaf y problemau staffio a galw uchel roedd staff wedi darparu profiad cadarnhaol i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd ac yn deall yr heriau enfawr sy'n eu hwynebu.

Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn cydnabod efallai nad ydy'r adroddiad hwn yn dangos profiad yr holl gleifion a dderbyniodd ofal yn ystod cyfnod ein harolwg. Byddem yn croesawu clywed profiadau pellach ac mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Argymhellion

01 Rhaid gwella'r amseroedd aros hir am asesu a thrin a datblygu systemau i gynnal gwell cysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, rhieni neu ofalwyr.

02 Dylid ymateb mewn dull amserol i unrhyw gais am help.

03 Gwella cefnogaeth a gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth os ystyrir nad ydynt yn addas ar gyfer gwasanaethau CAMHS

04 Gwell gwybodaeth a gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael gan CAMHS i'w arddangos gan ofal sylfaenol a darparwyr gofal iechyd eraill

05 Gwelliant yn y gwasanaethau, cymorth, ac ymyriadau a gynigir i blant a phobl ifanc niwroamrywiol a'u rhieni neu ofalwyr.

06 Rhaid i orffen unrhyw gefnogaeth (neu unigolyn sy'n rhoi cymorth) gael ei gyfleu'n glir i ddefnyddiwr y gwasanaeth.

07 Datblygiad arbenigwr CAMHS ar lefel Gofal Sylfaenol (neu ar lefel clwstwr)

09 Esbonio'r holl feddyginiaeth i rieni/gofalwyr

Diolch

Rydym yn diolch i bawb a gymrodd amser i ranu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaeth a rhannu eu syniadau.

Rydym yn goebithio y bydd yr adborth gan bobl yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn maen nhw'n ei wneud yn dda – a gweithredu lle mae angen cyn gynted â phosibl i wella pethau.

Adborth

Hoffem glywed eich barn am y cyhoeddiad hwn ac unrhyw awgrymiadau ar sut y gallem fod wedi ei wella, er mwyn inni allu defnyddio hyn i wella ein gwaith yn y dyfodol.



Manylion Cyswilt



Cyngor Iechyd Cymuned Hywel
Dda, Ystafell 5, Llawr 1af,
Ty Myrddin, Caerfyrddin, SA31 1LP



01646 697610



hyweldda@waleschc.org.uk



www.hywelddachc.wales



@HywelDdaCHC

Argymhelliad	Pryderon	Ymateb SCAMHS
R1	Gwelliannau aros hir am asesiad a thriniaeth a datblygu systemau i gynnal cysylltiad gwell â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, rhieni neu ofalwyr.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae gwasanaeth S-CAMHS wedi sefydlu grŵp monitro rhestrau aros sy'n cyfarfod bob mis i lywodraethu'r galw a'r capasiti ar draws y gwasanaeth, nodi unrhyw feysydd allweddol i'w gwella a lleihau amseroedd aros hir. Mae rheolwyr yn adolygu unrhyw restrau aros o bryd i'w gilydd i adolygu unrhyw risg a hefyd i ganfod ai S-CAMHS yw'r gwasanaeth mwyaf priodol o hyd. 2. Mae recriwtio cadarn yn mynd rhagddo i recriwtio i swyddi gwag a sicrhau bod staff allweddol yn cael eu cadw. 3. Mae S-CAMHS wedi ymgymryd â chynllunio galw a chapasiti a ddarparwyd gan Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru. 4. Bydd S-CAMHS yn parhau i sicrhau bod llythyrau "Cadw mewn Cysylltiad" yn cael eu hanfon at bob cleient sy'n aros am apwyntiad bob 12 wythnos i roi sicrwydd iddynt eu bod yn aros am apwyntiad. 5. Bydd S-CAMHS yn cynghori'r holl gleientiaid a theuluoedd yn y llythyr hwn i gysylltu â'r gwasanaeth pe bai eu pryderon yn gwaethygu wrth aros am apwyntiad i gyflymu apwyntiadau. 6. Bydd pob cleient / teulu yn cael gwybodaeth am gefnogaeth leol, gwefannau a chymorth digidol sydd ar gael. 7. Mae S-CAMHS wedi comisiynu Gwasanaeth Cwnsela Digidol Kooth i ddarparu cymorth YCHWANEGOL wrth aros am apwyntiadau / triniaeth .
R2	Dylid ymateb i unrhyw gais am gymorth mewn modd amserol	<ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd pob asiantaeth atgyfeirio yn cael Manyleb Gwasanaeth S-CAMHS sy'n amlinellu'r fframwaith Gweithredol a Llywodraethu ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a'r Glasoed (S-CAMHS) a ddarperir gan Fwrdd Prifysgol Iechyd Hywel Dda. 2. Bydd S-CAMHS yn cyflwyno safon amser ymateb galwad yn ôl o fewn 3 diwrnod ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys, neu'r un diwrnod ar gyfer galwadau brys.

		<ol style="list-style-type: none"> 3. Mae gan y gwasanaeth Un Pwynt Cyswllt ar gyfer pob atgyfeiriad ac mae hwn yn weithredol 5 diwrnod yr wythnos a bydd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn ymateb i atgyfeiriadau o fewn targedau perfformiad Llywodraeth Cymru o 48 awr ar gyfer achosion brys a 28 diwrnod ar gyfer atgyfeiriadau arferol. 4. Bydd S-CAMHS yn sicrhau bod llwybr atgyfeirio clir ar gyfer gwasanaeth Ffonio 2 111 y GIG i S-CAMHS a'r Tîm Asesu Argyfwng y tu allan i oriau gwaith ac ar benwythnosau. 5. Bydd tîm Asesu a Thriniaeth Argyfwng SCAMHS ar gael 24/7 i ddarparu asesiadau brys a chymorth y tu allan i oriau.
R3	Gwelliant mewn cefnogaeth a gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth os bernir nad ydynt yn addas ar gyfer gwasanaethau CAMHS	<ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd S-CAMHS yn sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth/atgyfeiriadau nad ydynt yn cael eu derbyn gan y tîm Un Pwynt Cyswllt yn cael eu cysylltu a'u hysbysu o'r rheswm pam na chaiff yr atgyfeiriad ei dderbyn. 2. Lle nad yw'r meini prawf ar gyfer gwasanaeth iechyd meddwl yn cael eu bodloni, byddwn yn ymdrechu i ddarparu dull arall o gefnogi a chyfeirio at asiantaethau allweddol megis Cwnsela mewn Ysgolion, Area 43, gwasanaethau Trydydd Sector a hefyd yn hysbysu atgyfeirwyr a defnyddwyr gwasanaeth am yr ystod eang o adnoddau ar-lein ac Apiau a allai fod o gymorth. 3. Bydd S-CAMHS yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar sut i gael mynediad i Kooth: Gwasanaeth Cwnsela Ar-lein i blant a phobl ifanc. 4. Bydd S-CAMHS yn archwilio gydag asiantaethau partner a ellir datblygu cynnig ar gyfer paneli cymorth cynnar amlasiantaethol er mwyn sicrhau ymateb cydgyssylltiedig gwell i bob atgyfeiriad iechyd meddwl a lles. (Dull Dim Drws Anghywir).
R4	Gwell gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael gan CAMHS i'w	<ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd S-CAMHS yn sicrhau bod pob Clwstwr Meddygon Teulu yn cael Manyleb Gwasanaeth S-CAMHS i sicrhau ymwybyddiaeth o swyddogaeth gwasanaeth a llwybrau atgyfeirio.

	harddangos gan ofal sylfaenol a darparwyr gofal iechyd eraill	<ol style="list-style-type: none"> 2. Bydd gwefan S-CAMHS yn cael ei diweddarau a bydd ar gael i ddarparu gwybodaeth a chynghor ychwanegol. 3. Bydd y Rheolwr Gwasanaeth PMH yn mynychu cyfarfodydd Clwstwr Meddygon Teulu misol lle gellir codi a mynd i'r afael â datblygiadau gwasanaeth ac unrhyw faterion allweddol. Rydym wedi rhannu datblygiadau newydd a gwasanaethau newydd drwy'r cyfarfodydd hyn a byddwn yn ystyried datblygu llenyddiaeth newydd i rannu gwybodaeth.
R5	Gwelliant yn y gwasanaethau, y cymorth a'r ymyriadau a gynigir i blant a phobl ifanc niwrowahanol a'u rhieni neu ofalwyr.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd S-CAMHS yn sicrhau Gweithredu'r Cod Ymarfer ar gyfer Awtistiaeth. 2. Bydd S-CAMHS yn cyfrannu ac yn gweithredu cymorth gwasanaeth pellach, ymyriadau a datblygiadau yn unol â Chynllun Gwella Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru. 3. Bydd S-CAMHS yn parhau i gefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau gwell. 4. Bydd S-CAMHS yn sicrhau bod y gweithlu yn cael hyfforddiant penodol ar ASD ac anhwylderau Niwroddatblygiadol cysylltiedig.
R6	Rhaid rhoi gwybod yn glir i'r defnyddiwr gwasanaeth am derfynu unrhyw gymorth (neu unigolyn yn rhoi cymorth).	<ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd S-CAMHS yn sicrhau bod cynlluniau rhyddhau / terfyniadau triniaeth yn cael eu cyflawni fel paratoad ar gyfer rhyddhau. 2. Bydd S-CAMHS yn darparu gwybodaeth am gymorth cymunedol ac ati adeg rhyddhau a chynghori ar lwybrau ailgyfeirio fel y bo'n briodol.
R7	Datblygu arbenigwr CAMHS ar lefel Gofal Sylfaenol (neu ar lefel clwstwr)	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae gan S-CAMHS Dîm Iechyd Meddwl Sylfaenol penodol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a'i gylch gorchwyl yw darparu cymorth emosiynol ac iechyd meddwl ar gyfer cyflwyniadau ysgafn i gymedrol. 2. Bydd S-CAMHS yn sicrhau gweithrediad llawn y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion ar draws ôl troed y bwrdd iechyd. 3. Bydd Rheolwyr S-CAMHS yn archwilio gyda Chlystyrau Meddygon Teulu y posibilrwydd o wasanaethau ychwanegol yn y gymuned hy ehangu'r Gwasanaeth Peilot Cymorth i Deuluoedd yn Sir Benfro.
R9	Esbonio pob meddyginiaeth i rieni/gofalwyr	<ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd S-CAMHS yn sicrhau bod y ffurflenni Caniatâd Meddyginiaeth yn eu lle ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc y rhagnodir meddyginiaeth iddynt.

		<ol style="list-style-type: none">2. Bydd S-CAMHS yn sicrhau bod taflenni gwybodaeth am feddyginiaeth yn cael eu darparu fel mater o drefn a bod cynlluniau meddyginiaeth yn cael eu trafod gyda'r cleient/rhiant/gofalwr pan roddir caniatâd. Darperir esboniadau / gwybodaeth ar unrhyw ymchwiliadau sydd angen eu cynnal, megis profion gwaed ac ati.3. Bydd S-CAMHS hefyd yn archwilio dewisiadau amgen i feddyginiaeth os nad yw rhieni/gofalwyr a'u plentyn yn cytuno.
--	--	---

Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda